# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 4

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## PENNOD 1

SEFYDLU, CYFRANOGIAD A CHRAFFU

### 35 Pwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod lleol

(1) Rhaid i drefniadau gweithredol awdurdod lleol o dan Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22) sicrhau bod gan ei bwyllgor trosolwg a chraffu y pŵer—

(a) i adolygu'r penderfyniadau, neu i graffu ar y penderfyniadau, a wneir gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer yr ardal awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau, neu i wneud hynny mewn perthynas â'r camau eraill a gymerir ganddo wrth arfer ei swyddogaethau;

(b) i adolygu trefniadau llywodraethu y bwrdd neu i graffu arnynt;

(c) i gyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r bwrdd mewn perthynas â swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu y bwrdd;

(d) i ystyried y materion hynny mewn perthynas â'r bwrdd y caiff Gweinidogion Cymru eu cyfeirio ato, ac i adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny;

(e) i ymgymryd â'r swyddogaethau eraill hynny mewn perthynas â'r bwrdd a osodir arno gan y Ddeddf hon.

(2) Rhaid i bwyllgor trosolwg a chraffu anfon copi o unrhyw adroddiad neu argymhelliad a wneir o dan is-adran (1)(c) at—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) y Comisiynydd;

(c) Archwilydd Cyffredinol Cymru.

(3) Caiff pwyllgor trosolwg a chraffu, at ddiben arfer pŵer a grybwyllir yn is-adran (1), ei gwneud yn ofynnol i un neu ragor o'r personau a gaiff fynychu un o gyfarfodydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (gweler paragraff 7 o Atodlen 3), neu unrhyw un a ddynodir gan berson o'r fath, fynychu un o gyfarfodydd y pwyllgor a darparu eglurhad iddo ar y materion hynny y caiff y pwyllgor eu pennu.

(4) Pan fo gan awdurdod lleol fwy nag un pwyllgor trosolwg a chraffu, mae'r cyfeiriadau yn y Rhan hon at ei bwyllgor trosolwg a chraffu yn gyfeiriad at y pwyllgor a ddynodir gan yr awdurdod lleol at ddibenion yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 35 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**I2** A. 35 mewn grym ar 1.4.2016 gan O.S. 2016/86, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 35.